



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith 2021-2022

Cynnwys

- 1** Cyflwyniad
- 2** Cwmpas yr adroddiad
- 2** Cynigion sydd wedi cael eu rhoi ar waith
- 3** Cynigion nad ydynt eto wedi cael eu rhoi ar waith
 - 3** • Y Gyfraith Cynllunio yng Nghymru
 - 3** • Cyfraith Etholiadol
 - 4** • Gwasanaethau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat
 - 4** • Diwygio Lesddaliadol a Chyfunddaliadol
 - 5** • Cyfraith Bywyd Gwylt
 - 5** • Tribiwnlysoedd Datganoledig i Gymru
- 5** Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol
 - 5** • Diogelwch Tomenni Glo
 - 6** • Cerbydau dan Reolaeth Awtomatig
- 6** Penderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith



Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

Cyflwyniad

Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith gan Weinidogion Cymru. Dyma'r seithfed adroddiad blynyddol i'w gyflwyno ar ôl pasio Deddf Cymru 2014. Mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2021 a 14 Chwefror 2022.

Mae Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Senedd Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y maent wedi rhoi cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru ar waith.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariadau ar y cynnydd a wnaed dros y deuddeg mis diwethaf o ran nifer o faterion y mae Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud argymhellion yn eu cylch. Rydym wedi ymrwymo'n ffurfiol i gyflwyno Bil Cydgrynhoi Cynllunio yn ystod tymor y Senedd hon, gan weithio'n agos gyda Chomisiwn y Gyfraith ar lunio'r Bil. Rydym wedi cyhoeddi cyfres o egwyddorion ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru ac wedi gwneud cynnydd pellach o ran bwrw ymlaen â chynigion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â gwasanaethau tacsis a cherbydau hurio preifat, diwygio lesddaliadol a chyfunddaliadol, cyfraith bywyd gwyllt a thribiwnlysoedd datganoledig i Gymru.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut rydym yn ymgysylltu â Chomisiwn y Gyfraith ar ei brosiectau presennol a'i brosiectau i ddod, megis deddfwriaeth ar ddiogelwch tomenni glo a cherbydau dan reolaeth awtomatig.

Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd a nodwyd yn dangos y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar gynigion Comisiwn y Gyfraith.

Mark Drakeford

Cwmpas yr adroddiad

- 1.** Mae Adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Senedd Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn honno.
- 2.** Dyma'r seithfed adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2021 a 14 Chwefror 2022.
- 3.** Fel y pennir gan y Ddeddf, mae'r adroddiad yn cwmpasu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn, a'r cynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd heb gael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rhoi cynigion ar waith a phenderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith.
- 4.** Mae'r adroddiad yn cwmpasu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.

Cynigion sydd wedi cael eu rhoi ar waith

- 5.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o roi cynigion Comisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Cynigion nad ydynt eto wedi cael eu rhoi ar waith

Y Gyfraith Cynllunio yng Nghymru

6. Cyhoeddwyd **Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021-2026** gan y Llywodraeth ym mis Medi 2021, gan gadarnhau ei hymrwymiad ffurfiol i gyflwyno Bil Cydgrynhai Cynllunio yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r Bil yn rhan bwysig o'r rhaglen hon ac mae'n faes gwaith y mae'r Llywodraeth wedi bod eisiau ei gyflwyno yn sgil adolygiad manwl Comisiwn y Gyfraith o gyfraith cynllunio yng Nghymru a'r farn y mae'n ei harddel ers tro am gymhlethdod y rhan hon o'r gyfraith.
7. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiwn y Gyfraith ar lunio'r Bil, ac mae'r gwaith hwnnw'n cael ei lywio gan **Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru**, yr **ymateb interim i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar y gyfraith cynllunio yng Nghymru** a'r **ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru**.

Cyfraith Etholiadol

8. Mae argymhelliad Comisiwn y Gyfraith yn yr adroddiad ar Gyfraith Etholiadol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 ynghylch cydgrynhai cyfraith etholiadol yn parhau i gael ei ystyried fel rhan o agenda diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru.
9. Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o egwyddorion ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru sy'n adlewyrchu gwerthoedd cyfiawnder cymdeithasol, cynwysoldeb a democratiaeth yng Nghymru. Dyma'r egwyddorion hynny: tegwch, hygyrchedd; cyfranogiad; gwella profiad dinasyddion; symlrwydd; ac uniondeb, a byddant yn parhau i gael eu defnyddio i feincnodi ein hagenda diwygio etholiadol yng Nghymru a'n dulliau o gefnogi ymgysylltiad a chyfranogiad democrataidd.
10. Bydd y cynlluniau peilot etholiadol a gynhelir fel rhan o etholiadau llywodraeth leol 2022 yn ceisio cynyddu cyfleoedd pleidleisio ac yn helpu i lywio gwaith i ystyried ffyrdd o gydgrynhau a chodio deddfwriaeth etholiadol yng Nghymru.
11. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati yng Nghymru mewn ffordd wahanol i'r dull y mae Llywodraeth y DU wedi'i fabwysiadu yn ei Bil Etholiadau. Mae hefyd yn bwriadu ceisio delio â rhai darpariaethau drwy ddeddfwriaeth Gymreig. Bydd hyn yn cyfrannu at ddatblygu system etholiadol fodern yng Nghymru sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
12. Bydd gwaith i adolygu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, i'w ddisodli gan Orchymyn newydd wedi'i gydgrynhau, yn cyfrannu at y weledigaeth hirdymor o gydgrynhau cyfraith etholiadol.

Gwasanaethau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

13. Yn adroddiad y llynedd ar roi cynigion Comisiwn y Gyfraith ar waith, nododd Llywodraeth Cymru mai mater i'r Llywodraeth nesaf fyddai penderfyniadau ar ddatblygu a chyflwyno Papur Gwyn a Bil yn y Senedd nesaf. Yna, cyhoeddodd y Prif Weinidog y **Rhaglen Lywodraethu** newydd ar 15 Mehefin 2021 sy'n cynnwys ymrwymiad i ddeddfu i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat a mynd i'r afael â phroblemau croesffiniol.

Diwygio Lesddaliadol a Chyfunddaliadol

14. Ar ôl iddi groesawu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ar Ryddfrenio, yr Hawl i Reoli a Chyfunddaliad, a gyhoeddwyd yn 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd, **Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol** pellach ar 17 Mawrth. Yn y datganiad hwn cadarnhaodd y Gweinidog ei chefnogaeth dros argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac amlygodd rinweddau parhau â dull deddfwriaethol ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr i ymdrin â'r diwygiadau. Yr un pryd â'r datganiad, **cyhoeddwyd** ymchwil a gafodd ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthu a defnyddio lesddaliadau yng Nghymru. Roedd canfyddiadau'r ymchwil yn cynnwys nad yw sefyllfa a phrofiad lesddeiliaid yng Nghymru yn sylweddol wahanol i sefyllfa a phrofiad lesddeiliaid yn Lloegr.
15. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, a oedd newydd gael ei hethol, ei Rhaglen Lywodraethu a oedd yn cynnwys ymrwymiad i ddeddfu i weithredu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â diwygio lesddaliadau.
16. **Ysgrifennodd** y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd ar 1 Hydref 2021 yn cadarnhau ei barn ei bod yn fwy hwylus parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddeddfu ar sail Cymru a Lloegr mewn perthynas ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith a Llywodraeth y DU i gyflawni'r nod hwnnw o fewn cyfnod Senedd bresennol y DU. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi datganiad ar y cyd ym mis Ionawr 2022 ynghylch trothwyon pleidleisio ar gyfer rhyddfrenio a'r hawl i reoli, a rhai materion manwl eraill mewn perthynas ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Cyfraith Bywyd Gwylt

17. Roedd y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ar 15 Mehefin yn cynnwys ymrwymiad i wahardd defnyddio maglau yng Nghymru. Cafodd yr ymgynghoriad ar y cynnig i wahardd defnyddio maglau ei gynnwys ym **Mhapur Gwyn Amaeth (Cymru)** Llywodraeth Cymru.

Tribiwnlysoedd Datganoledig i Gymru

- 18.** Fel rhan o'i 13eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith, cytunodd Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru i ddechrau ar brosiect Cymru yn unig ar y gyfraith sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd datganoledig i Gymru. Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau a chyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ddechrau mis Rhagfyr 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r adroddiad ac wedi egluro ei fod yn cefnogi'n fras y cynigion diwygio a argymhellwyd. Bydd gwaith ar yr argymhellion nawr yn dechrau.

Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol

Diogelwch Tomenni Glo

- 19.** I gefnogi gwaith y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo, ym mis Hydref 2020, gwahoddodd Gweinidogion Cymru Gomisiwn y Gyfraith i werthuso'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddiogelwch tomenni glo a rhoi ei farn ar system reoleiddio integredig newydd sy'n addas at y dyfodol.
- 20.** Dechreuodd Comisiwn y Gyfraith ei adolygiad ar unwaith ac ymgynghorodd ar ei ganfyddiadau a'i gynigion rhwng mis Mehefin a mis Medi 2021. Canfu'r adolygiad nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddiogelwch tomenni glo, Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969, yn delio'n effeithiol â rheolaeth tomenni glo segur.
- 21.** Disgwylir i Gomisiwn y Gyfraith gyhoeddi ei adroddiad yng ngwanwyn 2022 a bydd yn darparu tystiolaeth hanfodol ar gyfer datblygu cyfundrefn newydd ar gyfer rheoli tomenni glo segur yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn ystod y Senedd hon i ddarparu cyfundrefn fodern, a all helpu i ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Cerbydau dan Reolaeth Awtomatig

- 22.** Ym mis Mawrth 2018, gofynnodd Canolfan Llywodraeth y DU ar gyfer Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad pellgyrhaeddol o fframwaith rheoleiddio'r DU ar gyfer cerbydau dan reolaeth awtomatig ar y ffyrdd.
- 23.** Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban (Comisiynau'r Gyfraith) eu hadroddiad ar y cyd ar 26 Ionawr 2022, gan wneud argymhellion ar gyfer cyflwyno cerbydau hunanyrru yn ddiogel ac yn gyfrifol. Mae'r adroddiad yn argymhell cyflwyno Deddf Cerbydau dan Reolaeth Awtomatig newydd, i reoleiddio cerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain. Mae'n argymhell gwahaniaethu'n glir rhwng nodweddion nad ydynt ond yn cynorthwyo gyrrwyr, megis system rheoli cyflymder addasol, a'r rhai sy'n hunanyrru.
- 24.** Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu gwaith Comisiwn y Gyfraith yn y maes hollbwysig hwn ar gyfer cludo teithwyr yn y dyfodol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth drafnidiaeth ugain mlynedd **Llwybr Newydd** ym mis Mawrth 2021 a nodwyd cyfraniad trafnidiaeth at ddatgarboneiddio yn **Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2**, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith sylweddol bosibl y gallai cerbydau cysylltiedig ac awtonomaidd ei chael ar reoli'r galw am drafnidiaeth, diogelwch ar y ffyrdd a chyfraniad trafnidiaeth at allyriadau nwyon tŷ gwydr a phwysigrwydd fframwaith cyfreithiol i ddarparu sail y gwaith hwn.

Penderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith

- 25.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi cynigion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi argymhellion a wnaed mewn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.